# IESU'N IACHAU DYN YNG NGAFAEL CYTHRAUL

Aeth Iesu mewn cwch i ardal Gerasa.  Dyma ddyn oedd ag ysbryd drwg ynddo yn dod ato. Roedd y dyn yn byw yn y fynwent ac yn y mynyddoedd.  Roedd yn llefain ac yn torri ei hun efo cerrig miniog.  Doedd neb yn medru ei rwymo.  Pan wnaeth o weld Iesu yn dod, dyma fo'n rhedeg ato a phlygu ar lawr o'i flaen.  "Beth wyt ti eisio efo fi, Iesu mab y Duw Goruchaf? Paid poenydio fi!" gwaeddodd. Gwnaeth Iesu orchymyn i'r ysbryd drwg ddod allan o'r dyn. Enw'r ysbryd oedd 'lleng' achos roedd yna lawer ohonyn nhw. Roedden nhw'n crefu ar Iesu i beidio eu hanfon nhw i ffwrdd o'r ardal honno.  Dyma nhw'n crefu ar Iesu i ganiatau iddyn nhw fynd i fyw yn y moch oedd yn ymyl. Felly aeth yr ysbrydion allan o'r dyn ac i mewn i'r moch.  Rhuthrodd y moch i gyd i lawr y llechwedd serth i mewn i'r llyn a boddi.







**"Dos adre at dy deulu a dywed wrthyn nhw am y cwbl mae Duw wedi ei wneud i ti, a sut mae wedi bod mor drugarog."  Marc 5:19**



Wrth bwy wyt ti eisio dweud am y pethau gwych mae Duw wedi eu gwneud yn dy fywyd di yr wythnos hon?




Gwna lun o stori heddiw yn y gofod yma.



# Gwers 16
# IESU'N IACHAU DYN YNG NGAFAEL CYTHRAUL

**Testun y Beibl:** Marc 5:1-20

**Adnod allweddol:** Marc 5:19

**Pwrpas:** Bydd y plant yn deall fod gan Iesu bwer dros ysbrydion drwg.

Nodwch os gwelwch yn dda

Cynlluniwch weithgareddau addas i'r plant yn eich grwp. Gall y gweithgareddau gael eu haddasu yn dibynnu ar faint, oed a gallu'r grwp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ayb.

## I Gwers

Cyn gweithio ar y daflen liwio, darllenwch hanes y dyn ag ysbryd drwg ynddo o Marc 5:1-20.

Awgrym: Ar gyfer plant hyn, gallai'r athro/athrawes ddarllen yr hanes efo'r plant. Ar gyfer plant iau, gellid darllen yr hanes gan gymeriadu a symleiddio'r iaith lle bo angen.

## II Gweithgareddau

### 1 Yr Adnod Allweddol

**a) Darllenwch yr adnod yn uchel:**

"Dos adre at dy deulu a dywed wrthyn nhw am y cwbl mae Duw wedi ei wneud i ti, a sut mae wedi bod mor drugarog." Marc 5:19

**b) Eglurwch yr adnod gan ddefnyddio'r cwestiynau hyn**

- Beth wnaeth Iesu ofyn i'r dyn oedd ag ysbryd drwg ynddo ei wneud ar ôl iddo ei wella?
- Beth sy'n rhaid i ni wneud ar ôl i Iesu ein helpu?
- Pam fod Iesu eisio i ni ddweud wrth bobl eraill am ei help?

**c) Helpwch y plant i ddysgu'r adnod.**

## 2 Cwestiynau adolygu i'r plant

- Pwy ddaeth i weld Iesu pan oedd yn camu allan o'r cwch?
- Beth oedd y dyn oedd ag ysbryd drwg ynddo yn ei wneud?
- Beth wnaeth yr ysbrydion drwg ddweud pan welon nhw Iesu?
- Beth mae'r ysbrydion drwg yn ei wneud efo'r bobl maen nhw'n mynd i mewn iddyn nhw?
- Beth mae Iesu'n ei wneud efo bobl sydd efo ysbryd drwg ynddyn nhw?
- Beth ddwedodd Iesu wrth y dyn wnaeth o helpu i'w wneud?

## III Diweddglo

Gall Iesu helpu hyd yn oed bobl sydd ag ysbryd drwg yn byw ynddyn nhw. Does ganddo fo ddim ofn ysbrydion drwg. Ond mae gan yr ysbrydion drwg ofn Iesu am eu bod nhw yn gwybod mai Mab Duw ydy o. Mae'r ysbrydion yn plygu i lawr o flaen Iesu. Mae Iesu bob amser yn trechu'r drwg. Wyt ti'n credu yn Iesu? Wyt ti'n ei foli? Wyt ti'n credu fod Iesu efo ti bob amser? Os wyt ti, does dim angen i ti boeni. Does gan yr ysbrydion drwg ddim pwer drosot ti.